Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth
# Main Road
# Gwaelod y Garth
# Caerdydd
# CF15 9HJ

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth

Lleolir yr ysgol ym mhentref Gwaelod y Garth yn awdurdod lleol Caerdydd. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg i'w disgyblion mewn dwy ffrwd. Mae 293 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 45 disgybl oed meithrin rhan-amser. Mae 8 dosbarth oed sengl yn y ffrwd Gymraeg a 2 ddosbarth oed cymysg yn y ffrwd Seasneg. Mae mwyafrif y disgyblion yn mynychu'r adran Gymraeg a daw 40% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.

Tros dreigl tair blynedd, tua 3% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 10% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn llawer yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2013 a phenodwyd y pennaeth ym mis Tachwedd 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth yn groesawgar ac mae’r staff yn ofalgar o’r disgyblion. Mae bron pob un disgybl yn mwynhau dod i’r ysgol, yn teimlo’n ddiogel yno ac yn dangos parch at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn aeddfed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n ddysgwyr hyderus, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.

Mae’r staff yn creu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol ar gyfer y disgyblion sy’n eu hannog i ddysgu. Mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a’r cysylltiadau agos sydd ganddynt â’r gymuned leol. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i’r disgyblion gyfrannu tuag at yr hyn yr hoffent ei ddysgu ac i gymhwyso a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae gweledigaeth y pennaeth yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel a’r angen i les y disgyblion fod yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mewn amser byr iawn ers ei phenodiad, mae wedi rhannu ei gweledigaeth yn effeithiol gyda’r disgyblion, llywodraethwyr a rhieni.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgwyliadau’r holl athrawon yn galluogi pob un o’r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisiadau ynglŷn â’u dysgu er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol

A3 Codi safon medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu(TGCh) disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, sy'n cynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u man cychwyn.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llafar Cymraeg sydd yn is na'r safon ddisgwyliedig am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau cyfathrebu cadarn yn y ddwy ffrwd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda hyder wrth ymateb i gwestiynau neu gwblhau heriau. Er enghraifft, o oed ifanc, mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn dwyn i gof storiâu fel 'Diwrnod prysur Siôn Corn' ac yn trafod elfennau ohoni yn hyderus. Yn y ffrwd Saesneg, mae llawer yn datblygu geirfa Gymraeg ddefnyddiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn dangos dealltwriaeth gref o ymadroddion pob dydd ac yn ymateb iddynt yn synhwyrol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau gwrando effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. O oed dosbarth derbyn, mae llawer yn datblygu sylfaen gadarn o lythrennau a seiniau yn gyflym, ac yn defnyddio hyn i ddarllen geiriau syml a datblygu eu hyder. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf ohonynt yn llunio geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus ac yn darllen â mynegiant pwrpasol. Maent yn trafod cynnwys llyfrau â brwdfrydedd ac yn cyfeirio at nodweddion testun yn effeithiol. Er enghraifft, yn y ffrwd Saesneg, mae'r disgyblion y trafod effaith tywydd oer ar y postmon wrth iddo ddosbarthu ei lythyron. Yn y ddwy ffrwd yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau darllen yn gadarn dda. Maent yn amrywio tôn a goslef eu llais yn effeithiol wrth ddarllen ar goedd i adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn stori. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn cyfeirio at gynnwys testunau'n fanwl i gefnogi eu barn. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio eu medrau darllen yn llwyddiannus i ymchwilio i ffeithiau am y bydysawd, er enghraifft. Mae safon medrau darllen Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn addas i'w hoed. Maent yn esbonio'r testun yn syml ac yn ynganu geiriau'n gywir wrth ddarllen ar goedd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y ddwy ffrwd yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau ysgrifennu mewn gwersi iaith ac mewn pynciau eraill. O'r cychwyn cyntaf, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cofnodi llythrennau geiriau a chymalau syml yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu'n ysgrifenwyr creadigol a medrus, er enghraifft wrth ailadrodd hanes eu hymweliad â Chastell Caerdydd. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn strwythuro eu gwaith yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrediad o gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith pwrpasol. Er enghraifft, maent yn sgriptio hysbyseb radio i werthu peiriant amser ac yn creu darnau ffeithiol, aeddfed gan ddefnyddio ystod o ffynonellau gwahanol i gefnogi eu barn. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn ysgrifennu i safon sy'n cyfatebi'w gallu yn ddigon aml. Mae medrau ysgrifennu Cymraeg ail iaith y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu'n briodol wrth iddynt ddisgrifio eu hoffter am wahanol fwydydd, ysgrifennu cardiau post a chreu deialog byr rhwng cwsmer a gweinydd. Mae safon cyflwyniad gwaith a llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn amrywio gormod ar draws yr ysgol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau rhifedd y disgyblion yn gadarn ac maent yn eu cymhwyso i safon dda ar draws y cwricwlwm. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o werth lle, siâp, mesur, amser ac arian. Maent yn dehongli data yn gynyddol gywir ac yn ei gyflwyno mewn gwahanol ffurfiau, fel graffiau, i arddangos sut mae disgyblion y dosbarth yn teithio i'r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o fathemateg ac yn cyflawni'n dda. Pan gânt y cyfle, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm, yn enwedig o fewn eu hymchwiliadau gwyddonol ac yn ystod gweithgareddau thema'r prynhawn. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wna disgyblion Blwyddyn 6 o'u gwybodaeth am ganrannau i gyfrifo elw wrth drefnu parti Nadolig.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn effeithiol wrth wneud cofnod o'u gwaith ac maent yn cyfarwyddo tegan electronig i fynd ar daith i achub Jac wrth y Cawr. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith ar anifeiliaid yr Antarctig i'r plant ieuengaf. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio taenlenni'n hyderus er mwyn cyfrifo gostyngiad prisiau eitemau electronig. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau TGCh yn ddigon cyson i safon sy'n cyfateb i'w hoed a'u gallu. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt yn y maes hwn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol gan ddangos gofal amlwg am ei gilydd. Er enghraifft, mae'r bydis ym Mlwyddyn 6 yn treulio amser gwerthfawr gyda'r disgyblion iau yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hapusrwydd disgyblion yn y cyfnod sylfaen wrth iddynt ddod yn fwy hyderus ac ymgartrefu ym mywyd yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais, yn ymddwyn yn dda, ac yn trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr â lefelau uchel o barch.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos aeddfedrwydd wrth ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, wrth iddynt gynrychioli llais y disgybl ar gyngor yr ysgol neu ymgymryd â rôl fel i-bydi. Mae'r llysgenhadon gwych yn dechrau hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall sut mae eu hawliau'n berthnasol i fywyd ysgol. Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau wrth ofalu am yr amgylchfyd trwy waith ystyrlon y clwb eco. Yn ddiweddar, mae llawer o ddisgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cyfle a gawsant i greu bocsys adar ac i blannu mwy o goed ar dir yr ysgol fel ymgyrch i gadw'r aer yn lân ar gyfer trigolion y pentref.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maen nhw'n dyfalbarhau'n dda â'u tasgau. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion ac yn parchu barn eraill. Er enghraifft, mae aelodau o'r dreigiau doeth yn cydweithio'n dda wrth drefnu gweithgareddau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dechrau cyfrannu at greu amrywiaeth o weithgareddau sy'n seiliedig ar ddatblygu eu medrau. Ar y cyfan, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus. Mae disgyblion Blwyddyn 5, er enghraifft, yn creu cwestiynau diddorol ar effaith ysmygu ar gyfer eu cyfoedion i'w

hateb yn ystod sesiynau traws gwricwlaidd. Er bod disgyblion y cyfnod sylfaen yn cyfrannu tuag at beth yr hoffent ei ddysgu yn effeithiol, prin yr ydynt yn datblygu eu medrau annibynnol trwy ddewis ble a phryd yr hoffent ddysgu. Ar draws yr ysgol, nid yw cyfraniad rhan fwyaf y disgyblion tuag at wella'u gwaith eu hunain neu waith eu cyfoedion mor llwyddiannus.

Trwy redeg siop ffrwythau a gwobrwyo pecynnau bwyd iachus, mae'r cyngor ysgol yn dechrau dylanwadu'n dda ar ddealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o'r angen i fwyta'n iach. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod pwysigrwydd cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff yn wybodus ac maent yn mwynhau mynychu'r amrywiol glybiau allgyrsiol, sy'n cynnwys y clwb aml-chwaraeon a dawns. Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch ymlacio wythnosol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl y disgyblion. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn sesiynau 'galw heibio' ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen. Mae gan ran fwyaf y disgyblion hŷn ddealltwriaeth fuddiol o effaith gwefannau cymdeithasol. Er enghraifft, maent yn deall yr effaith negyddol y mae addasu lluniau i newid delwedd yn ei chael ar hunanhyder a pharch yr unigolyn. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gref o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar y we.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol. Maent yn trefnu a chymryd mewn nifer o weithgareddau amrywiol, fel canu yng nghartref yr henoed a chodi arian i helpu'r digartref a chleifion sy'n dioddef o gancr. Un o uchafbwyntiau'r wythnos i'r disgyblion yw'r cyfle a gânt i fynychu clwb Sefydliad y Merched y pentref i'w haddysgu nhw i siarad Cymraeg a sut i ddefnyddio technoleg syml, tra'n manteisio ar y cyfle i ddysgu sut i goginio a gwnïo ganddyn nhw. Mae'r profiadau hyn yn cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth baratoi i gyflwyno egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru gan seilio'r cynnwys ar themâu a phrofiadau dysgu sy'n ddiddorol i'r disgyblion. Nodwedd lwyddiannus yw'r rhan mae athrawon yn ei roi i ddisgyblion gynnig awgrymiadau a syniadau ar gyfer teitl y thema ac am yr hyn yr hoffent ei astudio. Mae hyn yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion tuag at ddysgu yn effeithiol ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith. Cynigir nifer o ymweliadau diddorol i'r disgyblion i gefnogi eu themâu, fel ymweliad ag arddangosfa sy'n ymwneud â'r Ail Ryfel Byd ac i'r Senedd. Mae'r staff yn cynllunio profiadau diddorol yn yr ysgol goedwig i ddatblygu medrau cyfathrebu a chydweithio'r disgyblion drwy dasgau i adeiladu lloches, er enghraifft.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, sy'n hyrwyddo brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith yn llwyddiannus. Mae'r staff yn modelu iaith Gymraeg raenus iddynt yn gyson, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau llafar Cymraeg yn y ffrwd Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud o un cyfnod i'r llall. Mae'r staff yn cynllunio ar gyfer hybu hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, caiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i gydweithio ag enillydd coron yr Eisteddfod Genedlaethol ac i ddysgu am hanes hen bwll glo cyfagos.

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y disgyblion a'r holl staff. Mae llawer o'r athrawon yn atgoffa'r disgyblion yn effeithiol am eu dysgu blaenorol ac yn cyflwyno amcanion dysgu a chyfarwyddiadau yn glir iddynt yn eu gwersi. Maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl disgyblion yn fedrus. Mae'r cymorthyddion yn darparu cefnogaeth effeithiol i alluogi disgyblion i gwblhau ac elwa o'u tasgau'n llwyddiannus. Mae'r athrawon yn dechrau cynllunio ystod o weithgareddau sydd â lefel briodol o her iddynt fodloni anghenion dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgwyliadau athrawon bob amser yn ddigon uchel i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar pwrpasol i'r disgyblion ac, ar y cyfan, mae strategaeth benodol yr ysgol ar gynnig adborth ysgrifenedig yn dechrau helpu disgyblion i wella eu gwaith yn bwrpasol.

Mae athrawon yn cynnig nifer o gyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Trwy'r amrywiol weithgareddau, caiff y disgyblion gyfleoedd bwriadus i ddatblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio strategaeth 'chwe het meddwl' wrth gydweithio i ddarganfod pa ddefnydd sydd orau i gadw dŵr berw yn gynnes. Mae'r athrawon yn dechrau cynllunio ystod o weithgareddau TGCh addas i ddisgyblion o fewn eu cynlluniau gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau'r dilyniant na'r parhad angenrheidiol ym mhob agwedd o'r maes hwn.

Ar y cyfan, mae prif egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n bwrpasol. Mae'r athrawon yn cynllunio llawer o brofiadau diddorol i ddisgyblion weithio yn y tu mewn ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd da o gae a choedwig yr ysgol i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion drwy eu hannog i gasglu deunydd naturiol fel brigau a'u trefnu yn ôl eu hyd i greu modelau o dylluanod. Fodd bynnag, er bod y disgyblion yn cyfrannu syniadau i gyfoethogi'r thema, mae rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn cael eu gor-arwain gan oedolion sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau penodol ynglŷn â'u dysgu. O ganlyniad, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn magu hyder ac yn deall pwysigrwydd rhannu pryderon, pan fo angen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r staff yn adnabod gofynion addysgol a phersonol disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth fanwl sydd ganddynt i nodi anghenion y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn effeithiol. Trwy nifer o weithgareddau llythrennedd, rhifedd a lles, mae'r staff yn sicrhau bod pob un disgybl yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i lwyddo yn eu dysgu. Defnyddir staff cymorth dysgu yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i gynorthwyo unigolion a grwpiau ac i weithredu ystod o raglenni cymorth gwerthfawr iddynt. Mae'r gefnogaeth hon yn helpu'r disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella'u safonau a'u deilliannau. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau dros amser. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag amrywiaeth o

asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio a rhannu eu profiadau wrth drafod bod pawb yn wahanol, a phwysigrwydd cyfeillgarwch a charedigrwydd. Mae'r ysgol yn sicrhau bod ei darpariaeth yn eang ac yn datblygu medrau creadigol y disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, caiff bron pob un o'r disgyblion gyfleoedd buddiol sy'n ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol. Er enghraifft, maent yn astudio ac efelychu gwaith artistiaid ac yn cyfansoddi gyda chanwr o Gymru. Mae cyfleoedd i fwyafrif o ddisgyblion berfformio mewn eisteddfodau, cyngherddau a gwasanaethau yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymreig a magu eu hunanhyder.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau amrywiol. Mae'r clwb eco, er enghraifft, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fywyd yr ysgol ac yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o effaith gor-ddefnyddio plastig ac i helpu datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd bywyd gwyllt yn effeithiol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion chwarae rhan lawn wrth wneud penderfyniadau ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn effeithiol. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni am weithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng cylchlythyron, negeseuon testun, a gwefannau cymdeithasol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gwrando ar safbwyntiau rhieni ac yn ymateb yn gefnogol i'w syniadau a phryderon. Enghraifft dda o hyn yw'r newidiadau diweddar iawn i gryfhau diogelwch y disgyblion wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol. Mae cyfraniad ariannol y gymdeithas rhieni ac athrawon yn fuddiol iawn i brynu adnoddau ychwanegol fel offer technolegol. Yn ogystal, gwahoddir rhieni i'r ysgol i rannu eu harbenigedd a phrofiad, er enghraifft fel cerddorion clasurol a chyflwynwyr teledu. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o'r gwahanol yrfaoedd sydd ar gael iddynt yn y byd ehangach.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cwricwlwm, gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn deall manteision ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Er mai ond cyfnod byr iawn sydd ers ei phenodiad, mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad brwdfrydig ac egnïol i'r ysgol. Mae hi wedi rhannu ei gweledigaeth gadarn, sydd wedi ei seilio ar gefnogi ac ysbrydoli disgyblion er mwyn iddynt ddatblygu i fod yn ddysgwyr iach a llwyddiannus, yn glir gyda disgyblion, staff, rieni a llywodraethwyr.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel iawn ohoni hi ei hun ac o'r staff, ac ers cychwyn yn yr ysgol mae hi wedi cryfhau'r cydweithio sy'n bodoli ymhlith y staff ar draws y ddwy ffrwd. Mae hi'n sicrhau bod cyfleoedd bwriadus i athrawon rannu

gwaith ymhlith ei gilydd ac i gynllunio ar y cyd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y staff o safonau cytûn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y broses o gydweithio ar safonau gwaith y disgyblion ar lefel ysgol gyfan hyd yn hyn. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli dros dro yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fwriadus, maent yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn cefnogi'r pennaeth yn gydwybodol.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad proffesiynol y staff. Mae parodrwydd a brwdfrydedd y staff i gydweithio gydag ysgolion eraill yn yr ardal leol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu syniadau ac i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg ac mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r ysgol yn hybu Cymreictod, mae'n paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru ac mae'n cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn meysydd eraill o'u dysgu yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd eang i gynorthwywyr dysgu hyfforddi er mwyn cefnogi disgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth yn llwyddiannus.

Mae trefniadau hunanwerthuso'r ysgol yn gadarn ac wedi eu seilio ar amrediad o dystiolaeth uniongyrchol ar gyflawniad disgyblion, arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Mae'r cyswllt sy'n bodoli rhwng canfyddiadau'r prosesau hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn fwriadus. Mae'r gweithgareddau monitro diweddar yn onest ac, o ganlyniad, mae arweinwyr ar bob lefel yn datblygu dealltwriaeth glir a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn sicrhau bod y meysydd hyn yn ganolog i ddatblygiad pellach yr ysgol ac maent yn dechrau llywio gwaith yr ysgol yn bwrpasol, fel datblygu medrau meddwl y disgyblion a sicrhau cysondeb yn y modd y mae athrawon yn ymateb i waith y disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Trwy gydweithio â'r staff, a thrafod enghreifftiau o waith gyda'r disgyblion, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Defnyddiant y wybodaeth yn dda i wneud penderfyniadau wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr wrth ddwyn yr ysgol i gyfri am safonau gwaith ac ansawdd yr addysgu yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigeddau unigolion i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu mewnol ac awyr agored yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn defnyddio'r holl adnoddau yn llwyddiannus i gefnogi'r dysgu ac i hybu lles y disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yn ofalus. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn glir â'r blaenoriaethau gwella ac yn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n deilwng i'w dderbyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2020